

Mae Casgliad y Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, (1947-61/63) a grëwyd gan Age Cymru Dyfed, wedi'i wneud yn bosib diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Dyddiad y cyfweiliad: Rhagfyr 2025

Lleoliad: Llangwyrfon

Cyfwelydd: Neil Davies

Camera: Hugh Morgan



Michael (Mike) Warren,

88 oed,

Llangwyrfon, Ceredigion,

Llu Awyr Brenhinol,

1955 to 1957.

“Mae gen I atgofion byw...Mae e’n teimlo fel ddoe.”

Methodoleg: Casglwyd stori Mike am ei Wasanaeth Cenedlaethol trwy ymweliadau a cyfweliadau yn cartref e yn Llangwyrfon. Roedd Mike yn 88 oed ar adeg yr ymweliad.

Mae'r awdur wedi groeswrio atgofion Mike gyda ffynonellau gwybodaeth ychwanegol er mwyn cael darlun gwell o profiad Mike yn y Llu Awyr Brenhinol (RAF).

Mae'r awdur wedi crynhoi rhywfaint o'r sgwrs o'r cyfweliad, lle mae Mike yn cael ei ddyfynnu yn y naratif hwn.

Bywyd cyn gwasanaeth cenedlaethol

Ganwyd Mike ar 28ain o Chwefror 1937 yn nhref Wath-upon-Dearne, sydd tua 5 milltir i'r gogledd o Rotherham yn Swydd Efrog. Mae'r dref yn gorwedd ar faes glo De Swydd Efrog, a arweiniodd at glo yn dod yn ddiwydiant mwyaf amlwg a'r prif reswm dros ehangu'r boblogaeth yn yr 20fed ganrif. Roedd y diwydiant glo hefyd y rheswm dros y gamlas a'r rheilffordd, a oedd yn hanfodol ar gyfer cludo deunyddiau a chynnyrch.

Magwyd Mike gan ei fam a'i dad, a oedd yn gweithio fel Peiriannydd yn y gwaith Nwy. Mae ganddo chwaer hŷn.

Mynychodd Mike yr ysgol ramadeg leol a gwnaeth yn eithaf da, gan adael ysgol yn 16 oed gyda 6 lefel 'O'. Byddai'r un pwnc lle na chyflawnodd y radd lefel 'O', sef Saesneg, yn dod yn berthnasol yn ddiweddarach yn ei yrfa gyda'r RAF.

Ar ôl gadael ysgol, dechreuodd ei fywyd gwaith fel cyfrifydd dan hyfforddiant i'r Bwrdd Glo Cenedlaethol. Roedd ei le gwaith tua 10 milltir i ffwrdd ger Doncaster. Yn ogystal â'i waith yn ystod y dydd, teithiodd y 9 milltir i goleg technegol Barnsley tair nos yr wythnos, lle bu'n astudio Cyfrifeg.

Yn y 1950au, pan gyrhaeddodd dynion ifanc 18 oed, roeddent yn atebol i gael eu galw i'r fyddin ar gyfer Gwasanaeth Cenedlaethol. Byddai'r Weinyddiaeth Gwasanaeth Cenedlaethol yn cyhoeddi hysbysiadau rheolaidd, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddynion a chafodd eu eni rhwng dyddiadau penodol gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Cenedlaethol. Yn 18 oed, cofrestrwyd Mike.

Yn gyffredin â'r rhan fwyaf o ymgeiswyr Gwasanaeth Cenedlaethol, yn fuan ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed, disgynnodd llythyr wedi'i stampio â'r llythrennau swyddogol OHMS (On Her Majesty's Service) drwy'r bocs llythyrau. Y tu mewn roedd gorchmynion i adrodd i swyddfa Gwasanaeth Cenedlaethol leol...

"...ac yna cyrhaeddodd y llythyr a chefais fy ngwahodd i ymuno â Lluedd ei Mawrhydi!"

Ni chafodd Mike ei boeni gan y datblygiad hwn...

"Wel, roeddech chi'n ei ddisgwyl. Roedd yn arferol. Cefais fy nghyfarwyddo i deithio i Sheffield a mynychu'r swyddfa hon i chael cyfweliad. Es i at bobl yr RAF a dyna lle es i beni lan."

Yn ei achos ef, roedd yna dewis pa gangen o'r lluedd arfog y hoffai ymuno. Nid oedd gan Mike ddiddordeb yn y Fyddin, ac nid oedd y Llynges yn apelio ato. Ei opsiwn dewisol oedd yr RAF. Ar ryw adeg roedd yna asesiad meddygol.

"Roedd rhyw fath o asesiad meddygol. Dy chi'n gwybod yr hen stori am sefyll yno a phesychu.."

Unwaith y penderfynwyd bod Mike yn fynd i ymuno a'r RAF, rhoddwyd cyfarwyddiadau i fo fynd i 'ganolfan dderbyn'. Yma, chafodd i'r recriwtiaid eu wisg ac ar adegau cawsant eu dal yn ôl am gyfnod byr, nes bod ysgol hyfforddi yn barod i ddechrau cwrs newydd i Filwyr Cenedlaethol.

“Rwy'n credu nes i gael rhyw fath o docyn am drên i Cardington yn Swydd Bedford. Fe wnaethon nhw rhoi gyd o'r cit i chi ac yna anfon chi'i un o'r gwerysilloedd hyfforddi.”

Mae'n cofio cael ei wisg RAF, a roedd rhywfaint o hiwmor yn gysylltiedig â hi...


“Rhaid bod y beret a roddon nhw i mi wedi bod mewn stoc ers cyn y rhyfel byd! Roedd wedi pylu'n llwyr a roeddwn i'n edrych yn wahanol i'r lleill i gyd. Felly, prynais liw, ei liwio fo ac roedd yn dal yn wahanol i'r lleill! Roedd ganddo ychydig o arlliw gwyrdd iddo. Ond ni ddywedodd neb air. Fe wnes i oroesi ag ef am yr holl amser hwnnw.”

Gwasanaeth Cenedlaethol

O RAF Cardington, cludwyd Mike a rhai recriwtiaid eraill i wersyll hyfforddi RAF ger Amwythig ar gyfer hyfforddiant sylfaenol. Cynhaliwyd y cwrs hwn yn RAF Bridgnorth, Swydd Amwythig.

RAF Bridgnorth

Roedd yr orsaf yn dyddio'n ôl i ddyddiau cynnar yr Ail Ryfel Byd ac roedd ganddi brofiad o hyfforddi milwyr newydd. Pan gyrhaeddodd Mike ym 1955, roedd yr orsaf yn gartref i ysgol hyfforddi Recriwtiaid rhif 7. Roedd cwrs hyfforddi sylfaenol yr RAF ar gyfer Milwyr Cenedlaethol yn parhau am wyth wythnos.



Mae'r cerdyn post hwn yn dyddio'n ôl i'r cyfnod pan gafodd recriwtiaid y Gwasanaeth Cenedlaethol eu hyfforddi yn Bridgnorth.

Delwedd -
aboutbridgnorth.com

Roedd cyrraedd yr hyfforddiant sylfaenol yn gam mawr yn nhaith Milwr Cenedlaethol. Bellach, dyma oedd yr RAF 'go iawn' a dechreuodd y busnes difrifol o droi sifiliaid fewn i filwyr. Roedd llawer o Filwyr Cenedlaethol yn disgwyl i'r hyfforddiant gael ei ddylanwadu gan awyrennau'r RAF neu weithrediadau hedfan. Fodd bynnag, fel yr eglura Mike, roedd y realiti braidd yn wahanol...

“Dim ond 8 wythnos oedd e. Llauer o nonsens. Yn gwyn-galchu cerrig ar hyd y llwybr a dipyn o orymdeithio.”

Mae Mike yn cofio digwyddiad, a fydd yn rhy gyfarwydd i Gyn-filwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol..

“Dywedwyd wrthym y byddem yn cael ein llety wedi’i archwilio. Os oedd yn safon dda, byddem i gyd yn cael ‘pas’ 48 awr. Gwnaeth ni gweithio’n galed, yn sgleinio ac yn sgwrio. Pryd cyrhaeddodd y Swyddog, thynnodd fwrdd neu gadair allan. Safodd arno a rhoi ei fys ar drawst wrth y nenfwd. ‘Mae llwch yna....pas 48 awr chi wedi mynd!’”

Profiad nodedig i recriwtiaid oedd yr amrywiaeth enfawr o bobl o bob cwr o’r wlad sy’n cyrraedd i hyfforddi. Rhywbeth sylweddodd Mike...

“Roedd yna ychydig o fechgyn o’r Alban, a chwaraeodd yr Albanwyr bêl-droed yn erbyn y Saeson. Roedden nhw’n rhy dda i ni!”

Mae’r rhan fwyaf o recriwtiaid yn cofio eu hyfforddwy. Roedd rhai cymeriadau a hyfforddodd Filwyr Cenedlaethol yn ddrwg-enwog. Efallai yr oedden yn cynhyrchion Prydain ar ôl y rhyfel a bydd allan o gam â chymdeithas heddiw.

“Yn y pen draw, rydych chi’n pasio allan. Dwi’n cofio pan wnaethon ni orffen daeth Corporal Amoss, a oedd braidd yn creulon, yn berson braf. Aethon ni i gyd I gêm bêl-droed. Wolverhampton Wanderers yn erbyn Spurs oedd hi, dw i’n meddwl, ym Molineux. Cawson ni ddiod neu ddwy wedyn. Roedd e’n ddyn da.”

Mae Mike yn cydnabod yr oedd gan yr hyfforddwy waith i’w wneud ac mae’n gallu cadw meddwl-agored ynglŷn â’u triniaeth o’r recriwtiaid newydd.

“Roeddech chi’n cael gorchmynion cadarn iawn, gyda rhywfaint o fygythiad iddo. Os na wnewch chi hyn, rydych chi mewn trwbl. Ond mae’r cyfan yn gêm.”



Ystafell farics nodweddiadol a oedd yn gartref i Filwyr Cenedlaethol yr RAF yn y 1950au. Mae hon yn debyg, os nad yn union yr un fath, i’r ystafell roedd Mike yn aros yn ystod yr hyfforddiant.

Delwedd trwy garedigrwydd
www.midcenturychap.com

Unwaith wnaeth yr hyfforddiant sylfaenol ddod i ben, byddai'r RAF yn neilltuo recriwtiaid i grefft benodol.

“Yn y pen draw, maen nhw’n rhoi crefft i chi. Roeddwn i wedi bod yn hyfforddi fel cyfrifydd, felly roedd yn gwneud synnwyr I mi mynd I fewn i un o’r crefftau mwy ymarferol. Felly, des i’r hyn a elwir yn ‘Clerc Progress’.”

Hyfforddiant crefft

Yn 1955, roedd yr ysgol gynradd ar gyfer hyfforddi awyrenwyr a menywod mewn dyletswyddau gweinyddol wedi’i lleoli yn RAF Credenhill, Swydd Henffordd. Wedi’i lleoli ar gyrion gorllewinol dinas Henffordd, roedd RAF Credenhill yn orsaf nad oedd yn hedfan ac yn gartref i amrywiol ysgolion hyfforddi a staff parhaol.

Byddai'r recriwts yn angen addysg bellach mewn mathemateg, graffiau ac ystadegau i ymgymryd â dyletswyddau 'Clerc Progress'. Cynlluniwyd y cwrs hyfforddi yn Credenhill oedd i ddod â'r Clercod newydd i fyny i'r safon ofynnol iddynt ddod yn weithredol.

Mae Mike yn sgimio dros ei amser yn Credenhill, sydd efallai'n dangos nad oedd yr hyfforddiant yn un o'r rhai mwyaf technegol na chynhyrchiol. Roedd y drefn yn llai llym nag yn Bridgnorth, ond roedd e yn dal i gael ei amlygu i'r 'BS', sef term cyffredin a ddefnyddir yn y fyddin i ddisgrifio glanhau a sgleinio.

"Oherwydd fy mod yn Glerc, fi wnaeth cael eu hanfon i'r swyddfa i sgleinio'r llawr! Ond ie, fe wnes i ryw fath o hyfforddiant. Mewn gwirionedd, fe wnes i ychydig o deipio."

Ar ôl cymhwyso fel 'Clerc Progress' byddai Mike yn symud eto...

"Yn y pen draw, rydych chi'n cael eich postio. Y Dwyrain Canol oedd hi. Cawson ni docyn i fynd ar drên, ac es i gyda 3 neu 4 bachgen arall. I ffwrdd â ni i le o'r enw Innsworth."

Yr ymweliad ag RAF Innsworth oedd dechrau taith hir I Mike...

RAF Innsworth


Mae'r orsaf wedi'i lleoli 30 milltir i'r de-ddwyrain o Henffordd, ar ymyl ogleddol Caerloyw. Mae'n dyddio'n ôl i'r Ail Ryfel Byd ac roedd yn fan aros pwysig i bersonel yr RAF a oedd yn paratoi ar gyfer postiad dramor.

"Fe wnaethon nhw gwisgo ni gyda cit 'khaki', stwff ysgafn ar gyfer hinsawdd boeth. Yna yn ôl i Henffordd, ac yna rwy'n cofio taith ar trên arall i Lundain. Treuliais noson yn Llundain ac yna daliais fws i le o'r enw Blackbushe."

Tramor

Roedd maes awyr Blackbushe yn ganolfan drafnidiaeth bwysig yn y 1950au. Wedi'i leoli yng ngogledd-ddwyrain Hampshire, byddai milwyr a menywod oedd yn ddigon ffodus i osgoi llongau milwyr yn hedfan allan o'r DU trwy faes awyr Blackbushe.

"Fe wnaethon nhw rhoi ni ar awyren, sef Handley Page Hermes, a'r tro nesaf iddi lanio oedd ym Malta."



Hermes Handley Page ym maes awyr Blackbushe ym 1954. Hedfanodd Mike allan ar awyren deithwyr Hermes. Ai hon oedd hi?

Lun gan RuthAS, Own work, CC BY 3.0, <https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=6384041>

Er i'r awyren lanio ym Malta, nid dyma oedd ddiwedd ei daith fo eto...

"Yna esgynnodd ni 'to a glanio yn 'Parth y Gamlas' yn yr Aifft. Am 3 noson, cysgodd ni mewn pabell."

Er mai dim ond am 72 awr y parhaodd yr arhosiad yn yr Aifft, mae gan Mike atgof cryf ohono...

“Rwy'n cofio gweld y swyddog uchel ei safle hwn o'r Aiff, sydd wedi'i orchuddio â medalau, yn anhygoel. Dwi wastad wedi meddwl tybed a oedd e'n "Nasser" ...yr oeddwn I yn edrych arno.”*

*Gwasanaethodd y Cadfridog Nasser fel Arlywydd yr Aiff ac fe'i derbyniwyd yn eang fel arweinydd y chwyldro yn yr Aiff a arweiniodd yn y pen draw at annibyniaeth.

Parhaodd taith Mike ar draws y dwyrain canol...

“Beth bynnag, cawsom ein rhoi yn ôl ar awyren arall. Rwy'n credu ei bod yn cael ei galw'n 'Valetta'. Glaniodd yn anialwch Gogledd Affrica mewn lle o'r enw El Adam, cwpl o leoedd eraill ac yn y pen draw glaniodd yn Nhiwnisia. Yna neidiodd drosodd i Malta, lle cefais fy anfon i le o'r enw Ta' Quali.”*



Awyren gludo Vickers Valetta yr RAF. Hedfanodd Mike drwy Ogledd Affrica ar un o'r awyrennau hyn.

Delwedd trwy garedigrwydd 'Aerocorner'

Malta - RAF Ta'Qali


Yn dyddio'n ôl i'r Ail Ryfel Byd, roedd Ta'Qali yn ganolfan awyr a barhaodd i weithredu ar ôl diwedd y rhyfel. Pan gyrhaeddodd Mike, roedd yn gartref i sgwadron 32 a oedd yn hedfan awyren fomio De Havilland Venom.



Awyren bomiwr ymladd De Havilland yr RAF. Daeth Mike yn gyfarwydd â sŵn yr awyrennau injan jet hyn yn esgyn ac yn glanio.

Lun gan Wikipedia

Ar ôl taith hir, roedd Mike wedi cyrraedd ei gyrchfan. Gorsaf yr RAF ar ynys ym Môr y Canoldir dros ddwy fil o filltiroedd i ffwrdd o'r DU.



Malta. Yn enwog am ei Chroes Siôr, a ddyfarnwyd am wrthsefyll pwerau'r Echel yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Isod - arfbais sgwadron 32.

Delwedd trwy garedigrwydd Wicipedia



“Ymunais â sgwadron 32 fel ‘Clerc Progress’ wythnos cyn y Nadolig 1955. Mae Ta’Qali ychydig o dan y bryn, lle mae Rabat a Medina.”

Mae Mike yn cofio rhai cydweithwyr yn yr RAF o Ta’Qali...


“Rhingyll Hedfan Ibbotson, a oedd o Hull, ac Is-Gapten Hedfan a cadodd at ei hun o’r enw’r Is-Gapten Hedfan McDonald. Roedd ganddo swyddfa fach ychydig lathenni i ffwrdd, ond anaml y byddech chi’n ei weld. Wnes I gweithio yno am 18 mis.”

Mae Mike yn gallu egluro beth oedd ei rôl fel ‘Clerc Progress’ ar gyfer sgwadron 32 yn ei olygu...

“Roedd gan sgwadron 32 De Havilland Venoms marc 1. Awyrennau bomio â chynffon ddeuol. Beth oedd y gwaith yn ei olygu... mae gan unrhyw awyren, y cydrannau yn yr awyren, gyfnod amser ac yna- p’un a ydyn nhw mewn cyflwr da ai peidio- maen nhw’n cael eu disodli. Mae ganddyn nhw atgyweiriadau I neud hefyd. Penderfynwyd ar hyn i gyd gan yr Is-gapten Hedfan McDonald, y Rhingyll Hedfan Ibbotson a’r Rhingyll Hedfan oedd drosodd gyda’r sgwadron. Fy swydd i oedd ei gofnodi I gyd yn y llyfr log sydd gan bob awyren.”

Mae Mike yn cyfeirio at y ffurflen a elwir yn F700. Roedd rhain yn ddogfennau pwysig iawn ac os na chânt eu cynnal a'u cadw'n gywir, gallent arwain at namau a phroblemau diogelwch yn cael ei methu. Gall hyn roi'r criw awyr a'r awyren mewn perygl. Roedd ei weithle yn agos at yr awyrennau, felly gallai o weld peirianwyr a thechnegwyr yn gweithio ar y Venoms...

“Roedd y swyddfa roeddwn i ynndi ger yr hangar, jyst llathoedd i ffwrdd.”



RAF F700, a elwir hefyd yn Ffurflen Gwasanaethu Awyrennau. Swydd Mike fel Clerc oedd sicrhau bod F700 pob awyren yn cael ei gynnal a'i gadw'n ofalus. Mae hwn yn enghraifft o 1957. Lun o Ebay

Roedd Mike yn gwerthfawrogi'r awyrennau ac yn teimlo'n rhan o'r sgwadron.

“Yn aml roedd yna sŵn peiriannau jet yn cael eu tanio. Rhaid i mi ddweud, ers hynny, fy mod i wedi cael diddordeb mewn awyrennau. Os daw un draw, rwy'n syth allan i weld a allaf ei weld a gwybod beth ydy e. Nid ydy e byth yr Venom!”

Roedd cynnal cofnodion yr holl awyrennau a oedd yn gweithredu o'r orsaf yn dasg. Mae'n debyg bod sgwadron 32 yn gweithredu o leiaf 12 o awyrennau bomio ymladd Venom. Er gwaethaf hyn, nid oedd digon o waith i gadw pawb yn brysur drwy gydol yr wythnos.

“Yr hyn y byddwn i'n ei ddweud yw nad oedd digon o waith i lenwi'r amser, a threuliais lawer o amser yn dymuno'r amser fynd heibio. Os oes gen i un gŵyn fawr am yr RAF, dyna hi.”

Ar y mater hwn, mae'n taro thema gyffredin, a ailadroddwyd gan lawer o Filwyr Cenedlaethol a wasanaethodd yn ail hanner y 1950au. Roedd cryfder personel yn uchel yn y Fyddin a'r RAF, ond parhaodd gorfodaeth filwrol heb ei ostwng. Ymhen amser, arweiniodd y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin at ostyngiad yn nifer y dynion ifanc a gafodd eu gorfodi i'r lluoedd arfog. Byddai hyn yn y pen draw yn arwain at ddiwedd gorfodaeth filwrol ym 1961. Rhaid cofio, fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, bod Milwyr Cenedlaethol yn parhau i gael eu rhoi mewn perygl mewn gwledydd lle parhaodd aflonyddwch a gwrthryfel yn erbyn rheolaeth Brydeinig.

Yn ffodus, daeth RAF Ta'Qali o hyd i rai tasgau ychwanegol ar gyfer ei 'Clerc Progress'.

“Swydd arall oedd yn ddiddorol. Cefais lawer o ffotograffau o awyrennau o wahanol wledydd yn y post. Yn enwedig rhai Rwsiaidd. Tynnwyd y ffotograffau o wahanol onglau. Byddai'r peilotiaid yn dod i mewn ac yn benthyc llyfr o ffotograffau, i'w hastudio. Pan fyddant i fyny yno yn yr awyr ac yn gweld awyren yn y pellter, mae'n eu helpu i adnabod beth maen nhw'n delio gyda.”

Mewn gwirionedd, yr hyn yr oedd Mike yn ei wneud oedd casglu llawlyfrau adnabod awyrennau. Roedd hyn yn caniatáu i griw awyr yr RAF wella eu gwybodaeth am yr amrywiol o awyrennau a hedfanwyd gan wledydd eraill. Gwellodd cydnabyddiaeth gynnar o awyrennau Cytundeb Waraw yn benodol effeithiolrwydd yr RAFs wrth weithredu yn erbyn lluoedd awyr eraill. Dyma'r cyfnod a elwir yn y Rhyfel Oer, a osododd NATO yn erbyn yr Undeb Sofietaidd. Senario dwyrain yn erbyn gorllewin go iawn.

“Roedd gen i gymaint o amser ar fy nwylo, roeddwn i'n arfer edrych trwy'r ffotograffau hyn a byddwn i'n meddwl wrthyf fy hun, fi oedd yr adnabyddwr awyrennau gorau yn yr Llu-awyr!”



Tudalen o lawlyfr adnabod awyrennau'r RAF o gyfnod y Rhyfel Oer. Mike oedd yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r llawlyfrau o'r fath yn RAF Ta'Qali ym 1956.

Delwedd trwy garedigrwydd –
dearoldblighty.com

Pan oedd modd, byddai Mike a'i ffrindiau'n archwilio'r trefi hanesyddol gerllaw.

“Ni fyddem yn mynd heibio i'r ystafell warchod ond dros y wal ac yn cerdded i fyny'r bryn ar lwybr bach. Os byddech chi'n mynd ar draws y maes awyr dros wal arall, byddech chi'n cyraedd dref o enw Mosta. Mae'n enwog am ei heglwys a'i chromen, a gafodd ei tharo gan fom Almaenig yn ystod y rhyfel. Fe darodd drwy'r chromen ar yr eglwys isod.”

Rhoddwyd wythnos o wyliau i'r awyrenwyr, a oedd yn chrosawu'n fawr. Roedd sut i dreulio'ch wythnos i ffwrdd yn dibynnu ar ble roedd pob unigolyn wedi'i leoli.

“Ar ryw adeg rydych chi'n cael wythnos o wyliau. Felly, aethon ni- fi a phlentyn o'r Alban o Lockerbie- draw i RAF Luqa, y ganolfan fawr ym Malta. Dyna'r maes awyr y dyddiau hyn. Roedd dau sgwadron o Shackletons, Marine Reconnaissance. Fe wnaethon ni ddod o hyd i Arweinydd Sgwadron a dweud wrtho fod gennym ni wythnos o wyliau. ...' a allai e ein diddanu ni?”

Talodd ymholiad dewr y ddau awyrenwr ar ei ganfed...

“Fe'm rhoddodd i mewn un awyren a fy ffrind mewn un arall ac i ffwrdd â ni. Am ddau ddiwrnod fe hedfanon ni o amgylch Môr y Canoldir, ychydig uwchben lefel y môr yn tynnu lluniau o longau. Tynnoch chi banel allan o'r ochr ac ymddangosodd camera, yn rhoi heibio i'r llongau hyn.”

Trodd yr antur hedfan hir yn brofiad cofiadwy...

“Fe wnaethon nhw ollwng targed ar y dŵr, yna ei chwythu'n ddarnau bach gyda gwn peiriant. Fe wnaethon nhw ollwng targed arall a rhoi drosto, gan ollwng bomiau marcio. Ar un adeg, cefais eistedd am ychydig funudau yn sedd y cyd-beilot.”

Amser anhygoel a ddaeth i ben gyda diwedd glo mawreddog...

“Yn y pen draw, pan ddaethon yn ôl i Luqa, wnaeth e ddim jyst glanio'n unig. Gwnaeth yr hyn a elwir yn gylchedau a lymphiau. Byddech chi'n glanio, yn rhoi i lawr y rhedfa, yn esgyn eto, yn troi mewn cylch ac yn

rhoi cynnig arall arni. Hyd at hanner dwsin o weithiau, mwy na thebyg. Roeddwn i'n gwneud hynny am ddau ddiwrnod. Roedd e'n wych."

Roedd Mike wedi taro aur gydag arweinydd Sgwadron da a oedd yn gwerthfawrogi staff daear ac yn meithrin ysbryd tîm o fewn yr RAF. Mae'n debygol ei fod wedi hedfan gyda Sgwadron 38, a oedd yn gweithredu Avro Shackletons ar ddyletswyddau morwrol o RAF Luqa.

Yn amlwg, roedd y ddau awyrennwr ifanc yn benderfynol o wneud y gorau o'u gwyliau wythnos oherwydd fe lwyddon nhw i ffitio i mewn i antur fach arall hefyd...



Avro Shackleton yr RAF wedi'i gyfarparu ar gyfer teithiau Rhagchwilio Morwrol, wedi'i ffotograffio ym 1955. Treuliodd Mike ddau ddiwrnod pleserus yn hedfan yn awyren debyg iawn.

Delwedd trwy garedigrwydd Wikipedia

"Rhywbeth arall a wnaethom. Aethon ni ar y fferi i Gozo. Roedd hyn ymhell cyn y fasnach dwristaidd. Roedd un gwesty ar Gozo, ac fe'i gelwid "The Duke of Edinburgh" oherwydd ei fod wedi aros yno o blaen. Cawson ni gwpl o nosweithiau yn yr gwesty yn Gozo a dyna oedd fy wythnos o wyliau."



Y Gwesty 'The Duke of Edinburgh', yn Gozo yn 1955. Chafodd Mike gwyliau fyr yn yr westy yma.

Lun o Facebook

Ar ôl deuddeg mis, cafodd Mike ei ddyrchafu i Uwch Awyrennydd. Efallai fod hyn wedi cyd-daro â'r gwyliau a ddisgrifiwyd uchod. Beth bynnag, chwaraeodd datblygiadau yn y Dwyrain Canol ran yn swydd Mike ym Malta.

"Ym mis Awst 1956, daeth argyfwng Suez i'r amlwg a hedfanodd sgwadron 32 i ffwrdd. Rwy'n credu eu bod wedi mynd i Amman yn yr Iorddonen. Aeth yr holl Arfogwyr a Ffitwyr. Mae'n debyg bod y llyfrau log wedi

mynd gyda nhw. Trosglwyddwyd rhai ohonom nad oeddent mor hanfodol oddi ar y sgwadron ac i'r gweryll."

Cafodd ymgyrch anffodus Suez effaith ddramatig a pharhaol ar bolisi tramor y Deyrnas Unedig. Roedd yr ymgyrch fer yn cynnwys miloedd o bersonel gwasanaeth y DU, ar draws tair cangen y lluoedd arfog. Hedfanwyd milwyr allan i'r dwyrain canol a Môr y Canoldir o'r DU. Ail-leolwyd sgwadronau'r RAF a hwyliodd y Llynges Frenhinol Dasglu aruthrol i gefnogi gweithrediadau yn ardal camlas Suez. Daeth Malta yn safle aros pwysig a gwelodd Mike gynnydd sylweddol mewn gweithgaredd.

"Daeth sgwadronau eraill i mewn. Tri neu bedwar, mwy na thebyg. Daethant i mewn am ychydig wythnosau yna mynd. Dw i'n cofio mai sgwadronau Gloster Meteor oedden nhw'n bennaf."

Roedd Mike yn dyst i luoedd Prydain yn cronni, wrth i'r cynllunwyr milwrol baratoi ar gyfer y gwrthdaro. Pan ddechreuodd ym mis Hydref 1956, dim ond 9 i 10 diwrnod y parhaodd yr ymgyrch. Daeth gweithrediadau ymosodol i ben yn eithaf sydyn, a arweiniodd at luoedd y DU yn dechrau tynnu'n ôl hir o'r dwyrain canol.

Yn y cyfamser yn RAF Ta'Qali, digwyddodd digwyddiad a brofodd i gael effaith sylweddol ar yrfa presennol a dyfodol Mike...

"Roedd y gwaith wedi gorffen am y diwrnod. Ymddangosodd dau Swyddog Peilot ifanc, ffres at y ddrws, yn chwilio am SAC Warren. 'A fydddech chi'n dod gyda ni os gwelwch yn dda?'"

Gorchymyn oedd y cais annisgwyl hwn, nid cais. Roedd Mike yn fwy na phryderus.

"Fe wnaethon nhw fynd â fi i'r swyddfa hon ac egluro. Roedd y llyfrgell wedi bod ar gau ac wedi'i chloi mewn lled-dywyllwch drwy'r amser roeddwn i wedi bod yno. Roedd y ddau ddyn yma'n swyddogion addysg, ac roedden nhw eisiau i'r llyfrgell gael ei hagor. Roedden nhw wedi edrych ar y cofnodion personol ac fe wnaethon nhw fy newis i. 'A fyddwn i'n gwirfoddoli i fod y llyfrgellydd newydd?' Wel, fe wnes i, ie."

Roedd hwn yn gyfle rhy dda i'w golli. Ymroddodd Mike i agor y llyfrgell, ac er nad dyma oedd yr adeilad prysuraf yn yr orsaf, roedd yn ddigon hapus.

"Felly, eisteddais yno yn aros i awyrenwyr ifanc ddod i fenthyg llyfrau. Ond nid oedd ganddo nhw diddordeb mewn darllen. Ond beth ydych chi'n ei wneud pan fyddwch chi wedi'ch amgylchynu gan gannoedd o lyfrau heb ddim i'w wneud? Rydych chi'n darllen- a dyna nes i- ac rwy'n ddiolchgar am hynny oherwydd i mi ddarganfod llawenydd mewn darllen. Des i o hyd i awduron dwi wedi hoffi ers hynny."

Yn wir, gwnaeth Mike ddefnydd da o'i amser fel llyfrgellydd a datgelu byd newydd...

"Rwy'n cofio darllen 'The Grapes of Wrath' gan John Steinbeck. Des i o hyd i 'For Whom The Bell tolls' gan Ernest Hemmingway ac amryw o rai eraill. Parhaodd hyn ar ôl i mi adael."

Fodd bynnag, nid drws llyfrgell yr orsaf yn unig a agorodd y swyddogion i Mike...

"Fe wnaethon nhw siarad â mi am beth roeddwn i'n mynd i'w wneud pan fyddwn i wedi cael fy dad-filwrio. Roeddwn i'n gwybod nad oeddwn i wedi fy ngwneud i fod yn Gyfrifydd. Awgrymon nhw y dylwn i fod yn athro. Ond roedd yna broblem. Doedd gen i ddim cymwysterau Saesneg. Felly, fe wnaethon nhw fy nhrefnu gyda Rhingyll Hedfan oedd â swyddfa yn Valetta. Unwaith, ddwywaith neu dair gwaith yr wythnos, neidiais ar fws a chael gwarsi Saesneg gyda'r Rhingyll Hedfan. Yn y pen draw, daeth amser yr arholiad. Eisteddais ar do yng nghanol Malta, gyda photeli o oren Schweppes wedi'u dwyn atom ni, ac eisteddais yr arholiad yn yr awyr iach a'r heulwen a phasio."

Rhywbryd ar ôl pasio'r arholiad Saesneg lefel O, daeth swydd Mike ym Malta i ben. Hedfanodd yn ôl i'r DU a daeth ei Wasanaeth Cenedlaethol i ben.

"Felly, es i yn ôl a chefais fy dad-filwrio."

Bywyd ar ôl y Gwasanaeth Cenedlaethol

Dychwelodd Mike i'w dref enedigol, Swydd Efrog, a'r thref fach Wath-upon-Dearne.

"Es i nôl i'r Bwrdd Glo, ond gwnes i gais i fynd i'r coleg. Cefais gyfweliad a chefais le mewn coleg ym Mhadgate, ger Warrington. Cymhwysais i fod yn athro a dyna oeddwn i nes i mi ymddeol yn gynnar."

Cafodd Mike yrfa hir mewn addysg. Treuliodd y rhan fwyaf o'i amser yn ddysgu disgyblion ysgol uwchradd.

"Roedd I yn ysgol uwchradd fawr yn awdurdod Doncaster. Roeddwn i'n ddysgu Daearyddiaeth. Roeddwn i wrth fy modd â Daearyddiaeth, ers pan oeddwn i'n blentyn ysgol. Daeth fy nhad ag atlas adref o'r gwaith i mi un diwrnod. Rwy'n cofio eistedd gyda fy atlas yn edrych ar enwau fel Guatemala a meddwl y byddai'n wych mynd yno. Dwi dal yn garu mapiau."

Parhaodd gyrfa Mike fel athro am 27 mlynedd, nes i afiechyd orfodi ymddeol yn gynnar.

"Dechreuais ddysgu ym 1961 ac dyna wnes i tan 1988."

Tua diwedd ei yrfa fel athro, arallgyfeiriodd i Grefft a Dylunio. Arweiniodd hyn at gyfnod o 12 mis yn ddysgu yn Efrog. Roedd y pwnc yn cynnwys deunydd artistig, gwaith micro-drydanol, gwneud gemwaith a gwaith coed. Mwynhaodd Mike y pwnc, yn enwedig y gwaith coed, a ddatblygodd yn hobi oesol.

Mrs Warren

Nid yw stori Mike yn gyflawn heb sôn am ei wraig, Sheila.

"Roedd Sheila yn y flwyddyn o dan I fi yn yr ysgol."

Er nad oedd yn ei hadnabod yn yr ysgol, daethant yn ymwybodol o'i gilydd mewn clwb ieuenctid lleol. Daeth gwyliau gyda'r clwb hwn â nhw at ei gilydd...

"Y flwyddyn benodol honno, cafodd y clwb wyliau yn Ynys Wyth, ac aethon ni'r ddau arny'n nhw. Fe wnaethon ni glicio ac rydym wedi bod gyda'n gilydd am byth ers hynny."

Pan oedd yn yr RAF yn Ta'Qali, ysgrifennon nhw at ei gilydd. Roedd Sheila yn ddigon meddylgar i anfon danteithion bach at Mike...

"Pan oeddwn i ym Malta, byddai llythyr yn cyrraedd gyda sigaret ynddo roedd Sheila wedi'i hanfon!"

Symud i Gymru

Cafodd Sheila a Mike ddau fab, Timothy a John. Symudodd John i Gymru ac yn 2000, tra roedd John i ffwrdd, gofalodd Mike a Sheila am ei dŷ. Syrthiodd y cwpl mewn cariad â'r ardal a phenderfynu symud i Gymru. Digwyddodd y symudiad yn 2003, pan ddaethon nhw o hyd i gartref addas yng Ngheredigion. Maen nhw wedi byw yng Nghymru ac wedi caru hi ers 22 mlynedd.

"Mae 22 mlynedd o fyw yma wedi bod braidd fel gwyliau! Syrthion ni mewn cariad yn llwyr â Chymru."

Mae pob hawl, gan gynnwys hawliau cyhoeddi i'r erthygl hon, yn perthyn i Mike Warren, neu ei fuddiolwr uniongyrchol pe bai'n marw.

Mae hawliau cyhoeddi i ddeunydd gafodd eu defnyddio i gwblhau'r ddogfen hon yn aros gyda'r cyhoeddwr gwreiddiol. Rydym yn diolchgar iawn i'r ffynonellau gwybodaeth canlynol a helpodd adeiladau stori hon:

- [Wikipedia](#)
- www.aboutbridgnorth.com
- www.midcenturychap.com
- www.wikiwand.com
- dearoldblighty.com
- aerocorner.com
- ebay.co.uk
- Facebook

